**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

Cyfarfod am 6.30pm, 6 Mawrth 2017, Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel

**COFNODION**

**Yn bresennol:**
David Rees AC (yn y gadair), yr Athro Ian Wells, yr Athro Faron Moller, Dr David Cunnah, Rhys Phillips, Dr Rob Janes, Dr Geertje van Keulen, Dr Robert Hoyle, Stephen Lawrence, Yr Athro Keith Smith, Lesley Kirkpatrick, Dr Stewart Eyres, Dr Stephen Benn, Dr Paul Hutchings, Wendy Sadler MBE, Cerian Angharad, a Leigh Jeffes.

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Llongyfarchodd yr Athro Peter Halligan ar ei benodiad yn Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, a diolchodd iddo am fod yn aelod o'r grŵp hwn dros y pedair blynedd diwethaf yn ei rôl fel Prif Weithredwr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Simon Thomas AC, yr Athro Tom Crick MBE, Dave Jones, Bob Cater, Andrew Mackenzie a'r Athro Mike Edmunds.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017**

Mae'r rhain wedi'u dosbarthu.

Cywiriad i'r cofnodion blaenorol: cofnodi ymddiheuriadau Yr Athro Keith Smith.

Cymeradwywyd y rhain wedi'r cywiriad, a’u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad 22 Mai 2018**

Amlinellodd Leigh Jeffes drefniadau ar gyfer digwyddiad y Gymdeithas Gemeg Frenhinol eleni.

**Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn 2018**

Dr Paul Hutchings, Cymdeithas Seicolegol Prydain, i siarad yn y cyfarfod nesaf. Cysylltwch â Leigh gydag awgrymiadau/siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Adroddodd cynrychiolwyr y cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol ar eu gweithgareddau/digwyddiadau presennol a'r rhai a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

**Diweddariad gan Dr Robert Hoyle, Pennaeth Prosiectau Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Dr Hoyle gyflwyniad ar ddatblygiadau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Dr Hoyle am ei gyflwyniad.

**Cyflwyniad: Rhys Phillips, Peiriannydd Ymchwil, Mellt ac Electrostatig, Airbus Group Innovations,**

Rhys Phillips i wneud cyflwyniad ar 'Amrywiaeth Rhyw - dull peirianyddol'.

Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Rhys am ei gyflwyniad a hefyd am gynrychioli IET ar y Grŵp a dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd gydag Airbus yn Toulouse.

**Unrhyw fater arall**

Ni nodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiadau cyfarfodydd**

Mae'r cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 3 Gorffennaf.

**Dod â'r cyfarfod i ben**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.20pm.